O deuwch Ffyddloniaid oll dan orfoleddu .....

O deuwch Ffyddloniaid oll dan orfoleddu ....

Mae'r rhain yn eiriau cyfarwydd i bawb rwy'n siwr - Y geiriau sydd ar gychwyn un o garolau enwocaf Cymru. Ond sdych chi eriored wedi sylwi ar y geiriau'n fanwl?
Mae'r garol yn cychwyn gyda galwad ar i bawb orfoleddu, i fod yn llawen.

Ond wrth edrych ar ein byd ni heddiw oes modd bod yn llawen? Onid geiriau sentimental niwlog yw'r geiriau hyn?

Pa reswm sydd i fod yn llawen heddiw?

Bob dydd am chwech o'r gloch byddaf yn eistedd i lawr o flaen y teledu ac yn gwylio'r newyddion. Daw Huw Edwards ymlaen gan son am y pethau pwysig sydd wedi digwydd yn y byd dros y dyddiau diwethaf a phur anaml y bydd gandoo newyddion hapus i'w rhoi i mi.

Rhyfel yn erbyn terfysgaeth ... Cynhesu Byd-eang... Cynnydd mewn troseddau gyda chyllyll ar ein strydoedd .... tlodi a newyn ofnadwy. Digon trist yw edrych ar ein byd heddiw. Ble mae Duw yn hyn i gyd?

Ydi Duw wedi ein gadael?

Mewn gwlad Gristnogol fel Cymru sydd wedi profi cymaint o ddimygiadau rhaid wynebu'r cwestiwn.
Mewn byd lle mae cymaint o ddioddefaint a thrychinebau, ble mae Duw?
Oes yna Dduw? Yn sicr os ewch chi i siarad â phobl ar strydoedd Cymru heddiw digon isel yw'r nifer o bobl sy'n credu mewn Duw.

A beth am weddio? Ydi Duw yn gwrando wrth i ni weddio? Yn aml mae rhywun yn teimlo fel pe bai ryw bellter ofnadwy rhyngom a Duw.

Wrth ddarllen y Beibl gwelwn bod safon Duw mor uchel ..
Cân dy gymydog fel ti dy hun a chân yr Arglwydd dy Dduw a'th hoff galon.
Pwy all ddweud eu bod wedi gwneud hynny heddiw?

Pa hawl sydd gennym i orfoleddu heddiw, pa resym sydd i fod yn llawen?

Gadewch i ni edrych yn agos ar eiriau'r garol eto ...

Er bod awdur y garol yn gofyn i ni orfoleddu, mae'n gofyn i ni hefyd fynd i rywle, i fethlehem dref - oherwydd yma fe anwyd Brenin yr Angylion. Ac yma fe welwn y digwyddiad mwyaf arbennig a welodd y byd erioed.

Yma yn y stabl y dangoswyd nad yw Duw wedi gadael y byd, ac fod gandoo gonsyrn drosom fel dynolryw.

Sut fedra i orfoleddu?

Mae'r Byd mewn cyflwr ofnadwy oherwydd gwrthryfel y ddynolryw yn erbyn Duw a dyna'r rheswm dros y dioddefaint a'r anhapusrwydd a welwn.
Gwelwn yr un gwrthryfel yng nghalon pob un ohonom ni, a dyna pam fod Duw mor bell.

Yr Anrheg Gorau

Rydym i gyd wedi pechu, rydym i gyd yn haeddu cosb gyfiawn Duw. Ond newyddion da y Nadolig yw fod Iesu wedi ei roi yn anrheg i ni.

Daeth Iesu i lawr gan fyw bywyd perffaith ac yna marw ar groes gan atgyfodi ar ôl tri diwrnod.
Nid oedd Iesu'n haeddu marw, ond fe'i cosbwyd ef gan Dduw am ein drygioni ni. Cymrodd Iesu ein cosb ni yn ein lle, ac felly trwyddo gellir adfer y berthynas rhyngon a Duw.

Mae gwir orfoledd y Nadolig a bywyd i'w gael drwy ddod i adnabod Duw fel Tad personol real. Rhaid dod i weld ein bod yn hollol analluog i wneud dim am ein cyflwr o flaen Duw, a bod Duw wedi gwneud y cwbwl i'n hachub drwy roi Iesu fel anrheg i dderbyn ein cosb.

Y cwbwl sydd yn rhaid i ni ei wneud yw troi oddi wrth ein bywyd hunanol a derbyn yr anrheg hwn.

'Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio a mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol' Ioan 3.16

Mudiad Efengylaidd Cymru, ©2008 (Elusen Gofrestredig 222407)
Cyhoeddwyd gan Wasg Bryntirion, Bryntirion, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4DX
Ffon 01656 655886 E-bost: swyddfa@mudiad-efengylaidd.org